University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Rhesymau Personol Cymhellol (CPR) ar gyfer Myfyrwyr Ôl-raddedig

Rhoddir cyllid ar gyfer cyrsiau Doethuriaeth Ôl-raddedig a Gradd Meistr fel cyfraniad tuag at gostau ac fel arfer dim ond cymorth ariannol ar gyfer *un* cwrs ar bob lefel y gall myfyrwyr ei dderbyn.

Fodd bynnag, os byddant yn methu â chwblhau eu cwrs ac yn ei adael, oherwydd 'rhesymau personol cymhellol', yna efallai y gallant anfon tystiolaeth o hyn i gyllid myfyrwyr, er mwyn cael eu hystyried am gymorth pellach ar gyfer cwrs *llawn* arall. Gall hwn fod yn gwrs cwbl newydd, neu'n ail-wneud eu cwrs blaenorol, cyn belled â'u bod yn ymgymryd â'r 180 credyd llawn yn y sesiwn academaidd newydd (nid 'atodol' drwy wneud llai na 180 credyd, neu gario drosodd unrhyw fodiwlau/ddyfarniadau blaenorol unrhyw gydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol) ac mae'r cwrs yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer cyllid.

Er enghraifft:

Mae Lee yn dechrau cwrs meistr Ôl-raddedig ym mis Medi 2020. Mae'n tynnu'n ôl o'r cwrs ym mis Rhagfyr 2021 oherwydd CPR. Mae Lee yn cychwyn cwrs meistr PG llawn, annibynnol arall ym mis Medi 2022 a gall ddangos CPR am beidio â chwblhau'r cwrs cyntaf. Mae Lee felly yn gymwys i gael Cyllid Ôl-raddedig llawn ar gyfer y cwrs newydd.

Mae Michael yn dechrau cwrs gradd meistr ôl-raddedig ym mis Medi 2021. Mae'n tynnu'n ôl o'r cwrs ym mis Ionawr 2022. Gall Michael ddangos CPR am beidio â chwblhau ei gwrs cyntaf. Mae Michael yn dychwelyd i astudio cwrs gradd meistr rhannol gan ddefnyddio astudiaeth flaenorol. Gan nad yw'r cwrs yn gwrs gradd meistr llawn, annibynnol, nid yw Michael felly yn gymwys i gael Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig ar gyfer y cwrs newydd. Sylwch, pan fydd myfyriwr yn bwriadu rhoi'r gorau i'w gwrs am gyfnod hir o amser a'i fod yn bwriadu dychwelyd i'r un cwrs ar yr adeg y gwnaeth adael (o bosibl o fewn derbyniad gwahanol), a bod gan y myfyriwr gytundeb gyda'u darparwr addysg uwch i wneud hynny, dylai myfyrwyr yn yr amgylchiadau hyn gael eu trin fel pe baent yn gohirio eu hastudiaethau yn hytrach na thynnu'n ôl a byddant yn gallu derbyn unrhyw daliadau sy'n weddill o'u hawl cyllid gwreiddiol pan fyddant yn ailddechrau.

Nid yw cyllid ailadrodd ar gael ar gyfer ail flwyddyn neu ran o flwyddyn o gwrs y mae'r myfyriwr yn ei wneud ar hyn o bryd.

Dim ond unwaith y gall myfyrwyr wneud cais am CPR.

Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd CPR y gellir eu hystyried:

• Profedigaeth

• Materion iechyd gan gynnwys iechyd meddwl

• Sefyllfaoedd personol megis cyfrifoldebau teuluol/gofalu

Beth yw'r broses?

Mae'n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth fanwl a thystiolaeth i'r awdurdod cyllido, gan roi gwybod iddo eich bod am wneud cais am resymau personol cymhellol, fel y gellir ystyried yr amgylchiadau eithriadol ac annisgwyl hyn.

Yn fwy penodol mae angen y canlynol:

• Llythyr eglurhaol oddi wrthych yn manylu ar yr amgylchiadau a sut yr effeithiodd hyn ar eich gallu i astudio yn y flwyddyn academaidd benodol honno

• Llythyr gan weithiwr proffesiynol sydd wedi ymgysylltu â chi, eich trin neu eich cefnogi ac sy'n ymwybodol o'ch amgylchiadau,

e.e. Meddyg, ymarferydd iechyd meddwl, cyfreithiwr, cwnselydd.

Rhaid i lythyrau fanylu ar:

• dyddiadau ac amserlenni'r astudiaethau yr effeithiwyd arnynt o fewn y flwyddyn/blynyddoedd academaidd;

• pa mor benodol yr effeithiwyd ar eich astudiaethau h.y. cwrdd â therfynau amser, presenoldeb, arholiadau;

• unrhyw gymorth a gawsoch e.e. diagnosis meddygol, unrhyw feddyginiaeth/atgyfeiriad at wasanaethau

• Byddai angen tystysgrif marwolaeth hefyd os oes profedigaeth

• Yn ddelfrydol, dylai'r Brifysgol hefyd ddarparu llythyr eglurhaol i'ch cefnogi os oes gwybodaeth ar ffeil am yr amgylchiadau sy'n effeithio ar eich astudiaethau. Gallai'r llythyr hwn fod oddi wrth eich tiwtor, yr Ardal Gynghori, y tîm Dilyniant, Cynghorydd Ariannol a Chymorth neu unrhyw un arall yn y Brifysgol yr ydych wedi trafod eich sefyllfa â nhw.

Rhaid darparu pob dogfen:

• Ar bapur pennawd

• Wedi'i llofnodi a'i dyddio, a nodi eich cyfeiriad

• Wedi nodi'n glir y dyddiadau yr effeithiwyd ar eich gallu i astudio

• Pa gamau a gymerwyd gennych chi a/neu'r gweithiwr proffesiynol y gwnaethoch gysylltu ag ef/hi

• Rhaid hefyd nodi eich Cyfeirnod Cwsmer ar bob tudalen o dystiolaeth.

Cwestiynau Cyffredin

Os nad wyf yn hoffi fy nghwrs, a allaf wneud cais am CPR?

Rhaid i resymau fod y tu hwnt i'ch rheolaeth, felly ni fydd gadael cwrs oherwydd nad ydych yn ei hoffi yn cael ei ystyried yn CPR.

Sut bydd hawlio CPR yn fy helpu?

Gellir defnyddio disgresiwn pan na allwch gwblhau cwrs oherwydd rhesymau personol cymhellol. Gall hyn eich galluogi i gael mynediad at gymorth ariannol pellach na fydd gennych fel arfer, gan fod cyfyngiad ar y blynyddoedd y gallwch gael cyllid.

Beth os wyf am wneud cais am CPR mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol o astudio yn y Brifysgol hon neu rywle arall?

Os gallwch weld tystiolaeth sy'n ymwneud â'r flwyddyn academaidd benodol honno gallwch wneud cais ôl-weithredol, efallai y bydd yn anos ei chael yn ddiweddarach felly fe'ch cynghorir i ddarparu'r wybodaeth hon i'ch awdurdod cyllido yn ystod y flwyddyn academaidd yr effeithir arni lle bo modd.

A yw CPR yr un peth ag amgylchiadau esgusodol?

Os yw'r Brifysgol wedi caniatáu eich amgylchiadau esgusodol, nid yw hyn yn golygu y bydd yr aseswr yn derbyn y rhain fel CPR. Yn y pen draw, yr aseswr sy'n penderfynu a ydynt yn derbyn eich amgylchiadau personol fel CPR.

Gwybodaeth bellach

Sicrhewch eich bod yn cysylltu â Chynghorydd Ariannol a Chymorth yn y Brifysgol i'ch cefnogi i wirio'ch hawl i gyllid cyffredinol myfyrwyr, gan gasglu'r dystiolaeth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch mewn perthynas â CPR. Efallai y byddwch hefyd am siarad â'r Ardal Gynghori a thimau Dilyniant ynghylch materion academaidd a Refeniw ynghylch eich ffi.

Cysylltwch â ni: **Tîm Cyngor Ariannol i Fyfyrwyr**

Rhif ffôn: 01443 483778 – (Ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 12pm)

E-bost: **money@southwales.ac.uk**

Ble dylwn i anfon fy nhystiolaeth?

Sylwch y dylech nawr allu llanlwytho eich tystiolaeth yn ddigidol yn eich cyfrif cyllid myfyrwyr ar-lein cyn belled â bod gennych gais gweithredol. Os nad oes gennych gais gweithredol, bydd angen i chi anfon eich tystiolaeth drwy'r post.

Cyllid Myfyrwyr Cymru

PO Box 211

Llandudno Junction

LL30 9FU

Student Finance England

PO Box 210

Darlington

DL1 9HJ

Student Awards Agency Scotland

Saughton House

Broomhouse Drive

Edinburgh

EH11 3UT

Student Finance NI

Part-time Office

Ballee Road West

Ballymena

BT42 2HS

Awgrymiadau:

Cadwch lungopïau o'r holl ddogfennau oherwydd efallai y bydd angen i chi gyfeirio atynt yn ddiweddarach.

Postiwch eich dogfennau trwy ddanfoniad wedi'i olrhain fel y gallwch olrhain eich tystiolaeth a'ch bod yn gwybod ei fod wedi'i dderbyn gan eich darparwr cyllid.